Cofnodion cyfarfod misol CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD a gynhaliwyd ar 21ain Gorffennaf 2011. Y Cynghorydd Marian Roberts oedd yn Cadeirio'r cyfarfod gyda'r Cynghorydd Dafydd Iwan, T. Cyril Owen, Rhys Pugh, Geraint R. Jones, Hilma Ll. Edwards ac Ifor D. Williams ac y clerc, Bryn Hughes, yn bresennol. Nid oedd neb yn datgan diddordeb / buddiant personol. Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Erddyn Davies, Catrin Roberts, Emyr Williams â'r Cynghorydd Sir, Chris Hughes. Fe gafodd Cofnodion y cyfarfod diwethaf ei gadarnhau yn gywir drwy gynnig gan y Cynghorydd T. Cyril Owen a gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Rhys Pugh.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Parc y Plwyf, Llanfaglan - Holiadur cynllun datblygu : Ymateb y plwyfolion i'r holiaduron oedd 53.6% o blaid y datblygiad, 39.3% yn erbyn a 7.1% yn datgan dim barn. Dychwelwyd 78% o'r holiaduron i'r clerc. O ganlyniad, fe benderfynwyd sefydlu Is-Bwyllgor i symud y prosiect ymlaen i gynnwys Cynghorydd Dafydd Iwan, Ifor D. Williams ac Erddyn Davies gyda'r Clerc. Bwriedir cynnal y cyfarfod cyntaf ar y safle ganol i ddiwedd mis Awst.

Cynnydd yn achosion o ladrata o fewn y gymuned : Mae Mr Rooksby o Heddlu Gogledd Cymru wedi bod mewn cysylltiad â'r Cynghorydd Ifor D. Williams ac wedi cael trafodaeth helaeth gydag ef. Adroddodd y Cynghorydd Dafydd Iwan bod achosion o fandaliaeth yn Cae Stanley wedi cynyddu yn ogystal. Mae'r clerc i gysylltu gyda Mr Rooksby a'i wahodd i gyfarfod y Cyngor yn ein cyfarfod ar Medi 15fed a gofyn iddo os nad yw ef yn gallu dod, a fyddai rhywun arall yn dod yn ei le. Mae'r aelodau yn awyddus iawn i drafod y materion yma cyn gynted â phosibl gyda'r Heddlu.

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru – Cynllun Llifogydd Cymunedol : Cafwyd sylwadau gan Cynghorydd Geraint R. Jones ynglyn y cynllun sydd a'r bwriad o sefydlu Cynllun Llifogydd Cymunedol gyda Wardeiniaid Llifogydd. Mae'r clerc i wahodd Sara Lane o'r Asiantaeth yn y dyfodol agos i gyfarfod yr aelodau a thrafod y mater ymhellach.

MATERION ARIANNOL

Cymeradwyo'r datganiadau cyfrifo yn Adran 1 : Cafodd gyfrifon blwyddyn ariannol 2010/11 ei dderbyn a'i gymeradwyo drwy gynnig gan y Cynghorydd Dafydd Iwan a gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Ifor D. Williams. Fe awdurdodwyd Cadeirydd y noson i arwyddo tudalen 1 y ffurflen flynyddol ar ran y Cyngor Cymuned.

Cymeradwyo'r datganiad Llywodraethu Blynyddol : Cyflwynwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a derbyniwyd yr atebion rhoddodd y clerc yn Adran 2 fel rhai cywir, cyflawn, ac yn cynrychioli ymatebion terfynol y Cyngor drwy gynnig gan y Cynghorydd Geraint R. Jones a gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Dafydd Iwan.

ARCHWILIADAU SAFLE - Adroddiad gan y clerc :

Cae Stanley. Mae'r giât mochyn wedi cael ei ddifrodi, oherwydd fandaliaeth mae'n debyg. Mae'r golfach wedi siglo ac nid yw'n gorwedd yn gywir. Mae Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r difrod ac wedi cysylltu â chontractwr i edrych ar y giât a'i atgyweirio.

Cysgodfâu Bws. Mae'r cysgodfâu bws yn lân ac mewn cyflwr da heblaw am y difrod yr wyf wedi adrodd arno yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae graffiti ffres ar persbecs y ddau gysgodfa yng nghanol y pentref.

Llwybr beicio ger y gysgodfa bws siop sglodion. Paentio'r ffordd er mwyn gwahardd cerbydau rhag parcio a blocio mynediad at y llwybr. Mae'r ffordd wedi ei farcio fel petai'n barod i'w baentio ond nid yw'r gwaith wedi ei gwblhau hyd yn hyn. Dywedodd Meirion Williams o Gyngor Gwynedd bydd y llinellau'n cael eu gosod yn ystod eu rhaglen marcio ffyrdd nesaf.

Ciosg Teleffôn, Llanfaglan. Mae'r gwydr wedi ei falurio ac mae'n ymddangos i mi nad yw'r ffôn yn gweithio ychwaith. Mae yna ddwy glogfaen fawr oddi fewn i'r ciosg – sef beth ddefnyddiodd y fandaliaid mae'n debyg.

Parc y Plwyf, Llanfaglan. Mae'r gwair wedi gordyfu ac angen ei dorri.

Y Foryd. Mae rhywun wedi ceisio rhoi'r 'llong' ar dân ac mae olion glo barbiciw oddi fewn i'r 'llong'. Hefyd oedd y biniau yn eithaf llawn pan oeddwn i yno ac oedd peth sylweddol o sbwriel o gwmpas y safle. Mae Meirion Williams wedi hysbysu'r Uwch Swyddog Gweithredu Gwledig o'r difrod ac mae am drefnu asesiad o'i gyflwr yn fuan. Mae'r Uned Gweithiau Bwrdeistrefol wedi ymweld â'r safle i glirio'r sbwriel.

Cae Swings, Llwyn Beuno. Mae yna rhagor o sbwriel adeiladu o flaen y modurdai. Mae cyflwr yr offer chwarae i weld yn foddhaol. Mae Richard Roberts o Gartrefi Cymunedol Gwynedd wedi adrodd yn ôl yn datgan y bwriedir dymchwel y modurdai a glanhau'r safle.

Penderfyniad:

Mae'r clerc i gysylltu a gofyn i BT fynd ati ac atgyweirio'r ciosg teleffon, tra'n pwysleisio pwysigrwydd y ciosg i'r ardal. Mae'r clerc i drefnu cael torri gwair Parc y Plwyf.

ARWYDDION ARDAL BONTNEWYDD - Adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Iwan : Mae arwyddion unrhyw ardal yn bwysig, er mwyn cofnodi enwau hanesyddol a diweddar yn gywir, ac wrth reswm, i gyfeirio pobl i'r mannau iawn. Daeth i'm sylw dros nifer o flynyddoedd fod sawl arwydd yn ardal Bontnewydd a'r cylch yn dangos anghysondeb, neu'n anwybyddu enwau hanesyddol.

Tai Brymer / Tai Beuno

Ar hyn o bryd, mae'r arwyddion wrth y ddwy res o dai yn y Bontnewydd yn dweud "Ffordd Brymer" a "Ffordd Beuno". Mae hyn yn gamarweiniol, os nad yn wir yn anghywir. Mae digon o enghreifftiau yn y cylch o resi tai yn dwyn yr enw "Tai", e.e. "Tai Libanus" ar y Lôn Groes a "Tai Magdalen" yn Llanfaglan.

1. Awgrymaf ein bod yn gofyn i Gyngor Gwynedd fabwysiadu'r ffurf "Tai Brymer" a "Tai Beuno" a gosod yr arwyddion priodol.

Y Foryd / Foryd Bach

Mae'r arwydd sy'n cyfeirio at Y Foryd o Lanfaglan ar hyn o bryd yn dweud "I'r Traeth / Sea shore". Awgrymaf fod y ddau enw yma yn gamarweiniol, ac wrth gwrs yn anwybyddu'r enw priodol, sydd hefyd yn ddisgrifiad cywir, sef "Y Foryd". Yn nes i gyfeiriad Llandwrog, mae'r "Foryd Bach", ac awgrymaf y dylem ofyn am gefnogaeth Cyngor Cymuned Llanwnda i roi'r enw hwnnw hefyd ar arwyddion.

2. Awgrymaf ein bod yn gofyn i Gyngor Gwynedd osod arwyddion "Y Foryd" a'r "Foryd Bach" yn y mannau priodol.

Groeslon 'Refail / Lôn Morfa

Mae'r Cyng. Ifor Williams wedi dwyn fy sylw i'r ddau enw yma y dylid eu gosod ar arwyddion yn ardal Llanfaglan, y naill ar y groesffordd sy'n troi am Bontnewydd a'r llall ar y ffordd sy'n mynd i gyfeiriad Y Foryd.

3. Awgrymaf ein bod yn gofyn i Gyngor Gwynedd osod arwyddion "Groeslon 'Refail" a "Lôn Morfa" yn y mannau priodol.

Enwau eraill i'w hystyried yn Llanfaglan: SLING, PARC Y PLWYF, PONC Y FORYD a'r HEN EGLWYS.

Gyrrwch yn ofalus
Am ryw reswm, mae'r Cynulliad (o bosib yn dilyn o ddyddiau'r Swyddfa Gymreig) yn mynnu defnyddio'r ffurf afrosgo – os nad anramadegol – "Gyrrwch yn ddiogel" ar brif ffyrdd, tra'n caniatáu'r ffurf llawer mwy soniarus "Gyrrwch yn ofalus" ar ffyrdd llai.
4. Awgrymaf ein bod yn pwyso am fabwysiadu'r ffurf "Gyrrwch yn ofalus" wrth arwyddion ffordd y Bontnewydd..
Milltir / Filltir
(Er nad yw'n berthnasol ar hyn o bryd i ardal y Cyngor)
5. Dylem bwyso ar Lywodraeth y Cynulliad hefyd i sicrhau mai'r ffurf "filltir" ddylai ddod ar ôl 1 a 2, ond "milltir" gyda phob rhif arall, er cywirdeb.
PENDERFYNIAD:
Cafwyd peth trafodaeth yn dilyn cyflwyniad y Cynghorydd Dafydd Iwan, gyda'r Cynghorydd Hilma Ll. Edwards yn awgrymu y dylid defnyddio "Rhesdai" yn lle "Tai" fel cyfieithiad am "Terrace". Nid oedd Cyng. Dafydd Iwan yn gwrthwynebu'r awgrym. Gofynnwyd i'r clerc lythyru a'r Cynghorau (Cymuned Llanwnda a Gwynedd) a'i gwneud yn hysbys o'r adroddiad a chefnogaeth Cyngor Cymuned Bontnewydd i'r argymhellion, gan awgrymu y dylai Cyngor Gwynedd ofyn i drigolion Ffordd Brymer a Ffordd Beuno a hoffent newid enw'r stryd i "Tai" yntau "Rhesdai" Brymer a Beuno.
"HWYL Y BONT 2011" : Eitem gan Cynghorydd Geraint R. Jones
Hoffai'r Cynghorydd Geraint R. Jones longyfarch Pwyllgor "Hwyl y Bont 2011" am gynnal y gweithgareddau ac am lwyddiant yr holl ŵyl. Mae'r clerc i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Pwyllgor i'w llongyfarch.
GWAITH CYNNAL TIROEDD gan CYNGOR GWYNEDD : Eitem gan Cynghorydd Geraint R. Jones
Hoffai'r Cynghorydd Geraint R. Jones longyfarch y tîm sydd yn gwneud gwaith cynnal tiroedd Cyngor Gwynedd am gyflwr y glaswellt ac y blodau hardd sydd wedi eu plannu o'r ffordd o Bontnewydd i Gaernarfon. Mae'r clerc i ysgrifennu at y Swyddog Priodol yng Nghyngor Gwynedd i'w longyfarch â'i dîm.
DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Nos Iau, Medi 15fed am 7 o'r gloch

YMHOLIADAU I :
Bryn Hughes
Clerc y Cyngor
CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD
11 Bro Wyled
Rhostryfan
Caernarfon
LL54 7LP

hughesbryn@yahoo.co.uk
Ffôn (nôs) : 01286 831861